BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

Dydd Mercher, 16 Rhagfyr 2021

14:00 – 16:00

Microsoft Teams

Aelodau presennol:	
Enw	**Sefydliad**
Emyr Williams (EW) - Cadeirydd	Parc Cenedlaethol Eryri
Cyng. Dyfrig Siencyn (DS)	Cyngor Gwynedd
Dafydd Gibbard (DG)	Cyngor Gwynedd
Annwen Morgan (AM)	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Llinos Medi Huws (LlMH)	Cyngor Sir Ynys Môn
Sioned Rees (SR)	Llywodraeth Cymru
Sian Williams (SW)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Bethan Russell Williams (BRW)	Mantell Gwynedd
Aled Jones-Griffith (AJG)	Grŵp Llandrillo Menai
Sian Purcell (SP)	Medrwn Môn
Sarah Andrews (SA)	Iechyd Cyhoeddus
Lowri Hughes (LH)	Prifysgol Bangor

Yn mynychu:	
Catrin Thomas (CT)	Cyngor Gwynedd (ar gyfer eitem 4a)
Arwel Jones (AJ)	Cyngor Môn (ar gyfer eitem 4a)
Fon Roberts (FR)	Cyngor Môn (ar gyfer eitem 4a)
Nia Williams (NW)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Dewi Wyn Jones (DWJ)	Cyngor Gwynedd
Lois Owens (LO)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Ymddiheuriadau:	
Ffrancon Williams	Adra
Andy Jones	Gwasanaeth Prawf
Gillian Jones	Gwasanaeth Prawf
Ffion Johnstone	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Neil Thomas	Heddlu Gogledd Cymru
Andrew Edwards	Prifysgol Bangor

Pwyntiau Gweithredu

1. Cytunwyd i anfon llythyr i Weinidog Llywodraeth Leol ar ran Cadeirydd y Bwrdd er mwyn holi am y gyllideb sydd ar gael i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. **Tîm Cefnogi BGC**
2. Tîm Cefnogi BGC i gydweithio gyda'r holl bartneriaid i adnabod sut maent yn cyfrannu at ffrydiau gwaith yr agenda tlodi erbyn y cyfarfod nesaf. Yn ddibynnol ar y gwaith yma, trefnu sesiwn gweithdy i drafod sut gall partneriaid gefnogi / herio ei gilydd ar gynnydd yn y maes tlodi. **Tîm Cefnogi BGC**
3. Cytunwyd i gael diweddariad eto am yr agenda tlodi mewn 6-9 mis gan y ddau awdurdod gyda'i gilydd ochr yn ochr er mwyn cymharu sefyllfa'r ddwy sir. **Tîm Cefnogi BGC i drefnu**
4. Gofynnwyd i'r is-grŵp Cymraeg fod yn edrych ar ddata dibynadwy ar gyfer nifer o siaradwyr Cymraeg rhwng y Cyfrifiad. **AJG**
5. Gofynnwyd i'r is-grŵp Gofal ac Iechyd amlinellu'r effaith y mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni wedi ei gael ar drigolion yn yr adroddiad cynnydd nesaf ym mis Mawrth. **FfJ**
6. Rhannu'r Asesiadau Llesiant drafft gydag aelodau'r Bwrdd ar ôl eu cyhoeddi er mwyn i bawb cael cyfle i roi eu sylwadau. **Tîm Cefnogi BGC**
7. Gofynnwyd i'r Tîm Cefnogi BGC a'r Gwasanaeth Ymchwil yng Nghyngor Gwynedd i ystyried os oes gwybodaeth/data dibynadwy y gellir ei ddefnyddio ar gyfer yr Asesiadau Llesiant sy'n dangos effaith Covid 19. **Tîm Cefnogi BGC**
8. Penderfynwyd mynd am opsiwn 3 er mwyn gweithredu'r Cynllun Llesiant a threfnu gweithdy ym Mehefin, gydag is-grŵp i arwain ar y gwaith yn cael ei sefydlu wedi hynny. **Tîm Cefnogi BGC**
9. Arweinydd pob is-grŵp i edrych ar eu rhaglen weithredu o rŵan hyd at Mai 2023 gan amlinellu'n gryno beth yn union y bwriedir ei gyflawni rhwng rŵan a hynny. Tîm Cefnogi i gydweithio/cefnogi'r gwaith yma. **Arweinyddion is-grwpiau a Thîm Cefnogi BGC**
10. Angen cadarnhau'r penderfyniadau uchod gyda'r Gwasanaeth Tân a'r Awdurdod Iechyd gan nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod a bod angen i'r holl aelodau statudol fod yn bresennol i gael cworwm. Angen sefydlu beth yw'r trefniadau dirprwyo o fewn y sefydliadau partner statudol. **Tîm Cefnogi BGC**

Cofnod o'r drafodaeth

Eitem	Nodiadau	Pwy?	Erbyn pryd?
1	**Croeso ac Ymddiheuriadau** Croesawyd yr holl fynychwyr i'r cyfarfod a derbyniwyd yr ymddiheuriadau a nodir uchod.		
2	**Cylch Gorchwyl –** cadarnhawyd y newidiadau a gyflwynwyd yng nghyfarfod 22.09.21		

3	**Cofnodion y cyfarfod diwethaf** Derbyniwyd y cofnodion fel adlewyrchiad teg o'r drafodaeth. Cafwyd diweddariad ar y pwyntiau gweithredu: 1. Gwahodd aelodau'r BGC i roi diweddariad cryno ar eu cynlluniau tlodi yn ystod cyfarfod nesaf y BGC ym mis Rhagfyr. (LO) - *ar yr agenda* 2. Sylwadau ar y Cylch Gorchwyl: ▪ Awgrymwyd i newid y geiriad ym mharagraff 3.2 o'r Cylch Gorchwyl i nodi mai Pwyllgor Gwaith yw'r enw am y Cabinet yng Nghyngor Sir Ynys Môn. ▪ Cytunwyd i ychwanegu paragraff am gworwm yn y Cylch Gorchwyl i adlewyrchu'r hyn sy'n ddisgwyliedig yn ôl y Ddeddf sef cworwm i'r BGC yw'r holl aelodau statudol. ▪ Paragraff 5 Adnoddau - cytunwyd hefyd i ychwanegu'r geiriad 'holl aelodau sy'n bresennol yng nghyfarfod y BGC pan fydd angen penderfyniad' ▪ Cytunwyd i ychwanegu geiriad am gyfnod y cadeirydd a'r is-gadeirydd - sef dwy flynedd fan lleiaf ▪ Gofynnwyd i bawb ddod yn ôl at Lois Owens efo unrhyw sylwadau pellach ar y Cylch Gorchwyl erbyn 6ed Hydref. *- cylch gorchwyl wedi ei addasu a'i gylchredeg i'r aelodau.* 3. Holodd Sian Purcell am wahoddiad i weithdy ar 5ed Hydref, sydd wedi ei drefnu gan BGCau y gogledd ar gyfer cynnwys grwpiau na glywir yn aml yn y gwaith ar yr asesiadau llesiant. (NH) – *Sian wedi derbyn gwahoddiad i'r gweithdy* 4. Cytunwyd i gyflwyno papur opsiynau i gyfarfod nesaf y BGC ar y broses o ddatblygu'r cynllun llesiant. (DWJ/ LO) - *ar yr agenda* 5. Cyfarfod i'w drefnu rhwng DWJ a Gwenllian Roberts i drafod rhannu a defnyddio data amser real. (DWJ) – *DWJ wedi gwneud cyswllt ond yn aros am gyfarfod* 6. Tîm cefnogi'r BGC i wneud y trefniadau ariannu ar gyfer y prosiect derbynfeydd, o'r is-grŵp Iaith (DWJ/ LO) – *wedi cwblhau* 7. Awgrymwyd i Arweinyddion y Cynghorau drafod/ holi am gyllideb i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn un o gyfarfodydd Pwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru i Ogledd Cymru (DS) - *wedi llithro. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i anfon llythyr ar ran y Bwrdd i Lywodraeth Cymru i bwysleisio'r sefyllfa anodd ariannol.* 8. Yr is-grŵp Newid Hinsawdd i roi ystyriaeth i sut i gynnwys plant a phobl ifanc yn y sgyrsiau am Newid Hinsawdd (SW/NW) - *wedi llithro.*	Tîm Cefnogi BGC	16/3/22
4a	**Cyflwyniad gan y ddau awdurdod ar eu Cynlluniau Tlodi** Cafwyd cyflwyniad yn gyntaf ar gynlluniau tlodi Cyngor Môn gan AJ a FR a Chyngor Gwynedd gan CT. Cafwyd trosolwg o'r data diweddar a gwaith atal tlodi'r ddau awdurdod.		

	Diolchodd EW am y cyflwyniadau gan nodi eu bod wedi bod yn fuddiol. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag unrhyw flychau gall y partneriaid helpu eu taclo ac eglurodd CT fod gwaith i'w wneud yn y tymor byr i ymateb i anghenion pobl (drwy CAB ac ati) a gwaith tymor hir sef adfer yr agenda ataliol a gwydnwch. Pwysleisiodd DG fod yr agenda tlodi yn fater i bob partner a bod rôl i bob partner. Awgrymodd fod angen diweddariad arall mewn 6-9 mis ac yn y cyfamser ystyried beth all y Bwrdd ei wneud / ddysgu. Nododd AJG fod y cyflwyniad yn ddiddorol ond yn drist iawn. Nododd fod cyfleoedd hyfforddiant am ddim e.e. cyrsiau coginio drwy'r coleg a chyfraniad drwy fynediad i offer digidol. Pwysleisiodd fod angen parhau i herio beth sy'n cael ei gyflawni yn y maes yma. Ychwanegodd SA ei fod yn bwysig bod y ffigyrau yn dychryn pobl a chydnabod fod gwaith angen ei wneud er mwyn sicrhau bod y bobl sydd ar angen fwyaf yn derbyn gofal. Cytunodd DS gan nodi byddai gweithdy tlodi i gymharu, dysgu a herio beth rydym fel Bwrdd yn gallu ei gyflawni yn erbyn yr agenda tlodi. Fel man cychwyn / gwaith paratoi byddai'n ddefnyddiol petai'r holl bartneriaid yn edrych ar y gwaith sydd eisoes yn digwydd o fewn eu sefydliadau yn y maes.	Tîm Cefnogi BGC **Pawb**	Mehefin neu Fedi 2022 16/3/22
4c	**Diweddariad ar waith yr is-grŵp Cymraeg - Aled Jones-Griffth** Cyflwynodd AJG gynnwys yr adroddiadau gan egluro fod y tendr ar gyfer y Prosiect 'Cyswllt Cyntaf' bellach ar Sell2Wales tan ddechrau Ionawr a bod yr is-grŵp yn edrych ar eu rhaglen waith i'r dyfodol. DG yn croesawu'r gwaith ac i AJG am gyflwyno prosiect a briff clir sy'n dangos y gwerth mewn cyd-weithio. Gofynnodd EW i'r is-grŵp Cymraeg edrych ar y data sy'n cael ei gasglu am nifer y siaradwyr Cymraeg yn y blynyddoedd rhwng y Cyfrifiad. Mae ffynonellau data cenedlaethol eraill e.e. Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Swyddfa Ystadegau Gwladol) ac Arolwg Cenedlaethol Cymru yn darparu data fesul sir, ond yn adrodd am lefelau siaradwyr sydd yn uwch na chanlyniadau'r Cyfrifiad, gan mai sampl yn unig sy'n cael ei ddefnyddio. Cytunodd AJG i'r is-grŵp edrych ar hyn a chydweithio efo timau data Gwynedd a Môn i edrych ar beth sy'n bosib.	Is grŵp Iaith	16/3/22
4ch	**Adroddiad 'Cynllun Rheoli Risg Llifogydd Porthmadog'- Sian Williams** Cyflwynodd SW gynnwys yr adroddiadau sydd wedi eu cynnwys yn y papurau gan adrodd y prif negeseuon o'r gweithdy diweddar yr is-grŵp. Nododd SW bod ffocws y gweithdy ar ddysgu o heriau sydd wedi codi yn y gorffennol ac ymgysylltu / cyd-weithio yn well efo'r cymunedau sydd wedi eu heffeithio.		

	Cafwyd trafodaeth gyffredinol a chyflwynodd nifer o'r partneriaid gwestiynau a sylwadau cyffredinol yn ymwneud yn bennaf â: • Ydi'r gwaith wedi ychwanegu gwerth a sut mae gweithio fel partneriaeth wedi cyfrannu at y nod yn y Cynllun Llesiant? • A yw'n ddigon amlwg pam ein bod wedi dewis edrych ar Borthmadog a Llangefni? Pam ddim cymunedau eraill? • Gan fod gan y ddau awdurdod Gynlluniau Atal Llifogydd eu hunain, oes materion eraill fyddai'n fwy addas i'r is-grŵp fod yn canolbwyntio / ychwanegu gwerth wrth daclo Newid Hinsawdd? • Oes angen ystyried pwy sydd angen bod yn y drafodaeth? • Cydnabod fod y BGC wedi cryfhau'r berthynas rhwng CNC, y Cynghorau a phartneriaid ond a oes gwerth i wasgu popeth mewn i brosiect? A yw'n well ei ddefnyddio fel man i rannu ymarfer da? • Dadlau fod y briff gwreiddiol o'r Cynllun Llesiant yn rhy amwys a bod angen dysgu gwers a chael rhywbeth mwy "focused" y tro nesaf. • Nodwyd fod y gwaith yn cyffwrdd ar yr agenda tlodi hefyd ac wrth ymgysylltu â chymunedau ei fod yn bwysig i amlygu'r materion eraill sy'n codi. • Diolchwyd am waith, ymroddiad ac angerdd arbennig SW yn y maes. **Penderfyniad:** • Gofynnwyd i'r is-grŵp fynd yn ôl ag edrych ar eu rhaglen weithredu o rŵan hyd at Mai 2023 ac ystyried os oes modd gweithredu'n wahanol o rŵan hyd at gyhoeddi'r Cynllun newydd.	Is-grŵp Newid Hinsawdd	16/3/22
4e/f	**Adroddiad yr is-grŵp iechyd –Ffion Johnstone** Yn absenoldeb Ffion Johnstone, cyflwynodd DWJ a FR gynnwys yr adroddiad gan amlygu'r gwaith oedd yr is-grŵp gofal wedi ei wneud dros gyfnod Covid-19. Diolchodd EW am yr adroddiad gan atgoffa pawb fod 90% o waith yn y maes plant ac oedolion yn statudol ac felly bod enghreifftiau o fynd tu hwnt o dan amgylchiadau anodd. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag ariannu prosiectau newydd a bod problemau'n codi o fod angen gwario arian grant o fewn cyfyngiadau amser yn hytrach na chynllunio yn hirdymor ar gyfer y dyfodol. Roedd yr aelodau yn teimlo fod angen amlygu'r gwahaniaeth oedd gwaith yr is-grwpiau wedi ei wneud a rhoi pwyslais ar yr effaith mae'r cyd-weithio wedi ei gael ar drigolion Gwynedd a Môn. Nodwyd bydd y cais yma angen mynd yn ôl i'r is-grŵp er mwyn trafod.	Is-grŵp gofal	16/3/22

5	**Drafft o Asesiadau Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn** Cyflwynodd DWJ yr asesiadau Drafft ar gyfer Ardal Caergybi ac Ynys Cybi ac Ardal Llŷn ynghyd ag amserlen yr ymgynghoriad / cyhoeddi'r Asesiadau. Nododd LIMH fod gwahanol gymunedau o fewn ardal llesiant Caergybi (Bae Traeddur ac Ynys Cybi) ac felly yn broblemus wrth edrych ar ddata'r ardal. Nododd hefyd bod angen amlygu ffigyrau yn ymwneud ac iechyd meddwl gan nad yw'r data hyd yma yn dangos hyn. Ategodd DWJ fod hyn yn wir am sawl ardal a'i bod hefyd yn anodd cael gwybodaeth lefel leol dibynadwy ar gyfer yr asesiadau ac y byddai'r tîm cefnogi yn parhau i edrych ar hyn ond byddent yngwerthfawrogi pwynt cyswllt o fewn y sefydliadau. Nododd EW ei fod yn anodd cymharu os yw'r ffigwr yn dda neu beidio mewn nifer o enghreifftiau a bod angen rhoi cyd-destun.	LO	cgap
6	**Opsiynau ar gyfer llunio'r Cynllun Llesiant** Aeth DWJ drwy'r adroddiad oedd wedi ei baratoi a chyflwyno'r opsiynau posib ar gyfer creu'r Cynllun dros y flwyddyn nesaf. Cafwyd trafodaeth a dyma oedd y pethau i godi gan nifer o'r partneriaid: • Pwysig cael mewnbwn gan bob partner ar y cychwyn er mwyn sicrhau trawstoriad barn. • BGC Conwy a Dinbych yn edrych ar ddod ag is-grŵp o wahanol feysydd at ei gilydd. • O ran y camau gweithredol cytunwyd fod modd cael grŵp llai i lywio'r drafodaeth. • Teimlad fod trefnu gweithdy i'r holl bartneriaid ym mis Mehefin yn werthfawr. Penderfyniad: • Cytuno i fynd am Opsiwn 3 a threfnu gweithdy at fis Mehefin. • Gan nad oedd cworwm yn y cyfarfod gofynnwyd i'r tîm cefnogi wirio fod y Gwasanaeth Tân a'r Bwrdd Iechyd yn hapus gyda'r penderfyniad yma. • I osgoi sefyllfa debyg ble nad oes cworwm yn y cyfarfodydd o hyn ymlaen, fe ofynnwyd i'r Partneriaid statudol sicrhau fod ganddynt drefn dirprwyo.	Tîm Cefnogi BGCSM /FfJ Tîm Cefnogi BGC	Mehefin Erbyn 6/3/22 Erbyn 6/3/22
7	**Adroddiad yn cynnig lleihau nifer y blaenoriaethau sydd gan y Bwrdd – Dewi Wyn Jones** Cyflwynodd DWJ yr adroddiad gan ofyn i'r Bwrdd ystyried os oedd angen lleihau'r nifer o flaenoriaethau rhwng rŵan a Mai 2023.		

	Dyma'r prif bwyntiau o'r drafodaeth: • Angen bod yn fwy clir ynglŷn â briff y blaenoriaethau a beth rydym fel Bwrdd yn ceisio ei gyflawni. • Mae rhai meysydd fel iechyd a gwydnwch cymunedol yn faterion brys sydd angen ei ystyried yng nghyd-destun Covid19. • Rhaid cofio nad oes gan y Bwrdd cymaint o adnoddau â Phwyllgorau Cenedlaethol. • Is-grŵp Tai – cwestiynau os oes mwy o waith ei angen yn y maes gan fod y sefyllfa wedi gwaethygu yn y 2 flynedd diwethaf. Oes angen monitro / cadw golwg ar y maes? • Angen bod yn realistig o ran ein Cynllun gwaith rhwng rŵan a Mai 2023. **Penderfyniad** • Gan nad oedd cworwm yn y grŵp penderfynwyd edrych eto ar hyn yn y cyfarfod mis Mawrth. • Gofynnwyd i bob is-grŵp gyflwyno adroddiad er mwyn amlinellu beth yw gwerth cyd-weithio yn y maes, beth yw eu rhaglen weithredu o rŵan hyd at Mai 2023 a pha wahaniaeth mae'r gwaith yn ei gael ar drigolion Gwynedd a Môn.	Arweiniydd pob is-grŵp	16/3/22
10	**Heriau a Chyfleon – eitem sefydlog** Dim i'w adrodd yn ystod y cyfarfod yma.		
11	**Unrhyw Fater Arall** • **Adolygiad JSEG o Ymosodiadau ar Weithwyr Brys** Atgoffodd LIMH fod angen i bob adroddiad sy'n cael ei gylchredeg i'r Bwrdd fod yn ddwyieithog. Dim ond copi Saesneg o'r ddogfen uchod oedd ar gael i'w rannu.		